



## YSGOL I.D. HOOSON

7.10.20

### **GWYBODAETH BWYSIG I BAWB - I'W RANNU GYDA POB PERSON SYDD YN GYFRIFOL AM DDOD A PHLANT I'R YSGOL AC YN CASGLU PLANT O'R YSGOL**

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i bawb am ei cydweithrediad ers cychwyn y tymor newydd. Hoffwn hefyd ganmol y plant am y ffordd y maent wedi ymateb i'r trefniadau dychwelyd. Mae'r sefyllfa wedi bod yn un heriol a rhyfedd i bawb. Hoffwn dynnu eich sylw tuag at rai pethau pwysig i chi barhau i'w cofio a'i gweithredu, a fydd yn cyfrannu ymhellach tuag at ein hymdrechion i sicrhau diogelwch pawb.

- Dylech gyrraedd yr ysgol dim mwy na pum munud cyn yr amseroedd cychwyn a gorffen. Bydd hyn yn hwyluso trefniadau o leihau y niferoedd o bobl sydd ar y campws ar yr un amser. Mae'r amseroedd cychwyn a gorffen fel a ganlyn:  
8.55 (cychwyn) / 3.00 (gorffen) i flynyddoedd 3-6  
9.00 (cychwyn) / 11.30 (gorffen) i'r dosbarth meithrin  
9.15 (cychwyn) / 2.45 (gorffen) i'r dosbarth Derbyn/ Blwyddyn 1 a 2
- Un rhiant / ofalwr yn unig a ddylai ddod ar fuarth yr ysgol i gasglu'r plentyn, gan barchu iechyd a diogelwch eraill drwy gadw pellter diogel o eraill.
- Cofiwch os yw eich plentyn yn dangos symptomau o Covid -19, dylech hysbysu'r ysgol a chadw eich plentyn adref (peswch newydd / tymheredd uchel / colli blas/arogl). Dylech gysylltu gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru am gyngor (111)
- Byddai'n gymorth mawr i'r trefniadau pe byddai pob rhiant/gofalwr yn sicrhau fod plant yn aros gyda nhw pan yn gollwng y plant yn yr ysgol a phan yn casglu o'r ysgol, er mwyn osgoi cymysgu di-angen gyda phlant eraill a gydag oedolion eraill. Mae'r bore a'r pawns yn amseroedd prysur, ac felly drwy wneud hyn byddai'n gymorth o ran y trefniadau sydd yn weithredol yn ystod y dydd i leihau cyswllt agos y plant gydag eraill.
- Cofiwch barhau i ddefnyddio'r system un ffordd wrth gasglu'r plant ar ddiwedd y dydd, gan gadw pellter diogel o eraill. Rydym yn gofyn i rieni/gofalwyr ymadael a'r safle unwaith mae'r plentyn wedi ei gasglu. Yn yr un modd, gofynnwn i rieni/gofalwyr ymadael a'r safle unwaith mae'r plentyn wedi cyrraedd yr ysgol.
- Cofiwch ein bod pob amser yn barod i drafod cynnydd eich plentyn neu faterion eraill sydd yn ymwneud ac addysg eich plentyn. Mae'r athrawon yn parhau i fod ar gael, ond ar hyn o bryd, gofynnwn i chi gyfathrebu drwy e-bostio'r athro/awes ddosbarth neu alwad ffôn, gan osgoi ceisio trafod gyda'r athro/awes ar y buarth.
- Rydym yn gofyn i'r plant i beidio â dod ac unrhyw eitemau megis teganau, gemau o adref i'r ysgol. Bocs bwyd yn unig fydd ei angen os nad ydynt yn cael cinio ysgol.
- A fyddech cystal â pharhau i annog eich plentyn i olchi dwylo yn gyson. Gall ef/hi ddod a hylif ei hun mewn bag, neu ddefnyddio'r hylif sydd ar gael yn yr ysgol. Gall eich plentyn wisgo mwgwd/gorchudd gwyneb os yw ef/hi yn dymuno.

**Salwch / Symptomau** - Os yw eich plentyn yn teimlo yn sâl, neu yn dangos symptomau Covid-19, yna ni ddylai ef/hi fynychu'r ysgol. Os yw eich plentyn, neu unrhyw aelod arall o'r teulu yn dangos symptomau o Covid-19, dylid gwneud trefniadau i gael prawf. Dylai ef/hi aros adref hyd nes y mae ef/hi yn teimlo yn well. Dylech ffonio llinell gymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru (111 llinell gymorth / 119 prawf) os yn ansicr. Bydd angen i chi hysbysu'r ysgol o'r sefyllfa, gan y bydd angen gwybodaeth ynglŷn â symptomau / prawf / pwy. Bydd hefyd angen cadarnhad o ganlyniad unrhyw brawf cyn y bydd y plant yn gallu dychwelyd i'r ysgol.

**Byrbryd** - Mae'r rhai o'r plant yn dod a byrbryd eu hunain ar gyfer y diwrnod ysgol. Gan fod yr ysgol yn dilyn canllawiau ysgolion iach yr Awdurdod Lleol, gofynnwn i'r plant i beidio a dod a chreision a siocled, ond yn hytrach yn dod a byrbryd iachus.

**Llyfrau** - Yn ystod y cyfnod clo cyn yr haf, benthycwyd amryw o lyfrau darllen i'r plant. Mae nifer uchel o lyfrau sydd yn dal heb ei dychwelyd i'r ysgol, ac felly mae'r llyfrau sydd ar gael i'r plant yn yr ysgol wedi lleihau yn sylweddol. A fydddech cystal â sicrhau fod unrhyw lyfrau sydd wedi ei benthycg, yn cael ei dychwelyd. Dylid gosod unrhyw lyfrau mewn bag, ar gyfer ei dychwelyd i'r athro/awes os gwelwch yn dda.

**Dysgu o bell** - Yn ystod y cyfnod clo, bu'r plant yn gwneud defnydd o gyfri llwyfan dysgu HWB personol ar lein i'w cefnogi gyda'r dysgu o adref. Bydd eich plentyn yn parhau i wneud defnydd o'r adnodd, ac yn achlysurol bydd yr athro dosbarth yn gofyn i'r plant gwblhau gwaith cartref drwy ddefnydd o'r cyfrif HWB. Gan ein bod yn parhau i fod mewn cyfnod bregus ac ansicr iawn o ran Covid-19, mae angen i ni fod yn barod i ymateb i sefyllfa ble y bydd angen cau yr ysgol ar gyfer grwpiau penodol o blant. Os byddwn yn wynebu sefyllfa o'r fath, yna bydd yr athro dosbarth yn cydlynu'r dysgu drwy gyfri HWB y plentyn. Mae'r athrawon yn barod wedi bod yn ymgysgu'r plant gyda'i cyfri HWB yn y dosbarth, ac felly y gobaith yw y bydd y plant yn gallu troi at hwn os yw sefyllfa yn codi. Ar gyfer achlysuron ble bydd unigolion yn gorfod aros o'r ysgol o ganlyniad i'r angen i hunan ynysu, mae hefyd pecynnau gwaith wedi ei pharatoi gan yr athrawon ar gyfer y plant. Byddwn yn dechrau dosbarthu rhain i'r plant dros yr wythnosau nesaf. Gofynnwn i'r plant i beidio â chwblhau rhain ar hyn o bryd, ac yn hytrach eu cadw ar gyfer yr amser pan fydd angen ei defnyddio yn ystod cyfnod o orfod bod o'r ysgol.

**Blaenoriaethau Gwella** - Yn ogystal â sicrhau iechyd a lles dyddiol y plant wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol yn ystod y cyfnod ansicr hwn, byddwn yn gosod ffocws ar bedwar o blaenoriaethau gwella yn ystod y flwyddyn. Bydd rhain fel a ganlyn:

1. Parhau gyda'r gwaith o baratoi tuag at Cwricwlwm
2. Adolygu trefniadau a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar y Gymraeg ar draws yr ysgol.
3. Adolygu trefniadau a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu a darllen ar draws yr ysgol
4. Ffocws bellach ar drefniadaethau a gweithdrefnau'r ysgol wrth gyflwyno newidiadau i weithredu gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 2021.

Mae ein cynllun gwella yn nodi manylion ynglŷn â sut y byddwn yn mynd ati i ymateb i'r blaenoriaethau hyn.

**Cyfathrebu** - Cofiwch gadw golwg allan ar wefan yr ysgol, Schoop, safle Trydar yr ysgol, yn ogystal a App yr ysgol ar gyfer gwybodaeth a newyddion allweddol.

**Urdd** - Ar hyn o bryd nid ydym yn gallu cadarnhau os y bydd Eisteddfodau yr Urdd yn mynd yn eu blaenau y flwyddyn hon oherwydd y sefyllfa yn ymwneud a Covid-19. Fodd bynnag, os ydynt yn dymuno, fe all eich plentyn ddewis ymaelodi gyda'r Urdd gyda'r posibilrwydd i gystadlu hefyd mewn cystadlaethau ar lein a chystadlaethau gwaith cartref. Gallwch ymweld â gwefan yr Urdd ar [www.urdd.org](http://www.urdd.org) os am ymaelodi neu i gael gwybodaeth bellach.

**Mini Marathon Noddedig** - Fel rhan o'n hymdrechion i annog byw yn iach a ffitrwydd personol, rydym am gynnal mini marathon noddedig yn yr ysgol. Bydd pob plentyn yn cymryd rhan yn y digwyddiad noddedig hwn. Bydd yn gyfle i'r plant gymryd rhan mewn gweithgaredd addysg gorfforol fydd yn hybu pwysigrwydd o gadw'n iach a ffit. Bydd hefyd yn gyfle i godi arian tuag at gronfa'r ysgol ar gyfer gwariant ar adnoddau penodol i'r disgyblion. Byddwn yn defnyddio unrhyw arian a godir tuag at brynu adnoddau sydd yn gysylltiedig gyda blaenoriaethau gwella'r ysgol. Bydd gan y plant ddewis o sut i gael ei noddi. Bydd rhain fel a ganlyn a bydd angen i bob plentyn nodi ei dewis ar y ffurflen. Byddwn yn dathlu ymdrechion y rhai sydd yn llwydo i godi'r cyfansymiau mwyaf o arian. Cynhelir y marathon o amgylch cae yr ysgol, a bydd dosbarthiadau gwahanol yn cynnal ei marathon noddedig hwy ar amseroedd gwahanol yn ystod yr wythnos olaf cyn hanner tymor, sef yr wythnos yn cychwyn Hydref 19eg. Wrth gwrs bydd aelodau staff sydd yn ffit ac abl i gymryd rhan hefyd yn rhedeg efo'r plant! Bydd pob plentyn yn derbyn ffurflen noddi a gofynnwn i'r plant ddychwelyd y ffurflenni yn ôl i'r ysgol i'r athro/awes ddosbarth ar ôl iddynt gwblhau yr her. Gall y plant ddewis yr her.

<b>Nifer o weithiau o amgylch y cae o fewn yr awr.</b>	
<b>Amser cyflymaf i gwblhau 20 lap / 40 lap / 60 lap</b>	
<b>1 awr o gerdded cyflym</b>	

**Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth** - Ar ddydd Gwener Hydref 16eg, byddwn yn cefnogi ymgyrch Dangos Cerdyn Coch. Gall y plant wisgo dillad/dilledyn coch i'r ysgol, a gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1 tuag at yr achos.

**Diolchgarwch** - Bydd y dosbarthiadau yn cyflwyno negeseuon o ddiolch i'w gilydd fel rhan o ddathliadau Diolchgarwch. Bydd rhain yn cael ei chyflwyno drwy gyfrwng cyswllt drwy y sgrin gyfrifiadur o fewn y dosbarthiadau. Gofynnwn yn garedig am gyfraniadau bwyd ar gyfer banc bwyd Wrecsam. Bydd cynhwysyddion ar flaen yr ysgol i adael unrhyw gyfraniadau ar **fore Mawrth Hydref 20fed**. Ni fyddwn yn gallu derbyn cyfraniadau cyn nac ar ôl y dyddiad hwn. Diolch.

**Hanner tymor** - Bydd yr ysgol yn cau am yr hanner tymor ar ddydd Gwener, Hydref 23ain ac yn ail agor ar ddydd Llun, Tachwedd 2ail.

Byddem yn gwerthfawrogi a byddai o gymorth mawr pe byddai rhieni/gofalwyr yn sicrhau fod y wybodaeth uchod yn cael ei gyfathrebu gydag unrhyw oedlion eraill sydd gyda chyfrifoldeb am ddod a'r plant i'r ysgol neu gasglu'r plant o'r ysgol. Unwaith eto hoffwn eich atgoffa i gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglŷn â'r gwaith, neu gyda'r swyddfa [mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk) am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus  
Yn gywir,

*Mr Rhodri Jones*  
Pennaeth

